Nadolig 2026:

Cofio am Iesu:

Amser Nadolig, cyfnod hudolus,
Sŵn mawr a chyffro sy'n llenwi ein tŷ,
Cyfle i ddathlu a mwynhau 'da'n gilydd,
Oes amser i gofio am Iesu?

Rhwygo papurau, agor ein sachau,
Gwenu a chwerthin, a hwyl y cawn ni,
Llenwi ein boliau â thwrci a llysiau,
Oes amser i gofio am Iesu?

N am Nadolig
A am yr angylion
D am y doethion o'r dwyrain draw
O! Dewch i ddathlu
Lawr i breseb Bethlehem
I ddathlu gyda'n gilydd
Geni'r Crist

Golau yn fflachio, lampau yn tanio,
Tinsel yn hongian o'r waliau trwy'r tŷ,
Teimlo ein hosan am siocled ac oren,
Oes amser i gofio am Iesu?

Eira yn oeri, gwisgo siwmperi,
Het ar ein pen ni, yn lliwgar, bob un,
Ymuno â theulu, a mwynhau y cwmni
Oes amser i gofio am Iesu?

Canu carolau, adrodd adnodau,
Dewn at ein gilydd, yn deulu, yn un,
Camu drwy'r adfent, i gyrraedd y diwedd,
A chofio am Iesu wnawn ni.

Dawel nos

Dawel nos, Sanctaidd yw'r nos;
Cwsg a gerdd waun a rhos,
Eto'n effro mae Joseff a Mair,
Faban annwyl ynghwsg yn y gwair,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd.

Dawel nos, Sanctaidd yw'r nos;
Cwsg a gerdd waun a rhos,
Eto'n effro mae Joseff a Mair,
Faban annwyl ynghwsg yn y gwair,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd.

Dolig Llawen i Chi:

Mae'n amser gwyl, Edrych 'mlaen am hwyl,
Wrthi'n fwyta yr holl dwrci a mins peis,
Mae'n amser dawns a chân, Pawb ar dân,
'Dolig Llawen iawn i chi!

Cytgan
Pan fo pob carden yn hongian yn dwt,
Pan fo'r goeden yn oleuadau'i gyd
A phan fo'r tŷ gydag addurniadau lu,
Can Benblwydd Hapus i Geidwad y Byd

Cân clychau'n glir, Glywn ni dros y tir,
Yn ein galw draw i'r eglwys ar y bryn,
Sain carol fwyn a chân, Pawb ar dân,
'Dolig Llawen iawn i chi!

Oriau yn llawn Drama'r 'geni gawn,
Gyda'r doethion a'r bugeiliaid yn eu tro
Yn gweld y baban glan, Pawb ar dân,
'Dolig llawen iawn i chi!

Un Seren

Pe bawn i'n gallu dweud wrth dad-cu,
fod na ddynion, wedi cerdded, ar y lleuad,
Byddai'n anodd ganddo gredu
fod dyn wedi medru mynd mor bell, mor bell,
Ond dyna ni, mae'n rhyfedd o fyd.

A phe bawb i'n gallu dweud wrth mamgu,
fod na sêr heibio'r sêr yn ôl ein gwyddonwyr ni,
Byddai'n anodd ganddi gredu
fod dyn wedi medru gweld mor bell, mor bell,
Ond dyna ni, mae'n rhyfedd o fyd.

Ond O! Nid fel 'na fu hi.
Na, roedd pethau yn well bryd hynny,
Ond efallai mai fi sy'n hen ffasiwn.

Un seren, un seren,
Dim ond un seren oedd yn bwysig i mi.
Dim ond un seren fry uwch Bethle'm,
Dim ond un seren oedd yn bwysig i mi.

Nadolig 2026:

Mae'r Nadolig yn adeg o'r flwyddyn
Lle mae cyffro mawr ym mhob tŷ.
Goleuadau hardd, a chwerthin di-ri
Teuluoedd yn uno fel un.

Y goeden a'r addurniadau
Anrhegion a chardiau i gyd
Beth yw'r neges i ni?
Prif bwrpas y dydd
Geni baban arbennig i Mair.

Y Nadolig i ni,
Adeg mor arbennig
I bawb ar draws y byd
Yn dod â ni ynghyd
Rhaid i ni gofio nawr
Am yr hyn sy'n bwysig
Y Nadolig, pob teulu yn un.

Mae cyffro mawr yn yr aer, mae rhywbeth hudol yn dod
Mae Sion Corn ar ei ffordd


Mae teuluoedd yn cwrdd, dathlu, chwerthin a gwledd
Ond beth yw'r ystyr i ni?

Da ni'n dweud
Nadolig yr amser gorau i ni
Nadolig – llawn o hwyl a dathlu
Nadolig – pawb oll yn un
Gadewch i ni ddweud wrthych chi

Dewch ar antur / dewch ar antur gyda ni
Dewch ar antur / i weld y Baban
A glywed ei stori

Mair a Joseph a'r Baban Iesu
Yn chwilio'n galed am le mewn llety
Rhaid bod lle
Rhaid bo' lle i nhw,
Rhaid bo' lle i nhw

Nadolig Llawen



Kye Kye Kule

Kye Kye Kule (chay chay kool ay)

Kye Kye Kofisa (chay chay ko fee sah)

Kofisa Langa (Ko fee sa lan ga)

Kaka Shilanga (Ka ka she lan ga)

Kum Aden Nde (koom ah den day)

Kum Aden Nde, Hey!